IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MERCHER, 10 MAI 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Michael (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Bridgeman a/ac Gunter |

1 : GWAHARDD Y CYHOEDD

Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu heithrio o’r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

2 : MATERION CERBYD HACNI/LLOGI PREIFAT

PENDERFYNWYD - Y dylid ymdrin â’r materion canlynol fel y nodir:

(1) Achos 1

Ystyriodd Aelodau gwyn a ddaeth gan aelod o'r cyhoedd a honnodd fod gyrrwr wedi gwrthod taith.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y gwnaed archeb hurio preifat er mwyn cludo teithiwr agored i niwed ag anableddau dysgu o Ganolfan y Mileniwm i'w cyfeiriad cartref. Roedd y teithiwr wedi cymryd rhan mewn perfformiad yng Nghanolfan y Mileniwm ac ymddangosodd mewn colur llwyfan a gwisg 'drag'. Dywedodd yr achwynydd fod y gyrrwr wedi gwrthod cymryd y teithiwr a dywedodd y byddai angen iddyn nhw archebu cerbyd arall. Nid oedd y teithiwr wedi meddwi, er bod ei anabledd yn effeithio ar ei lleferydd.

Dywedodd y gyrrwr ei fod yn gwrthod y daith oherwydd bod y teithiwr yn feddw ac yn teithio ar ei ben ei hun. Roedd yn pryderu y gallai'r teithiwr fynd yn sâl yn ystod y daith felly fe ganslodd yr archeb.

Dywedodd yr achwynydd nad oedd y gyrrwr yn codi pryderon am fod y teithiwr wedi meddwi ar unrhyw adeg. Dywedodd yr achwynydd y byddai wedi herio'r gyrrwr ar y pryd pe bai hynny'n wir.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor dywedodd y gyrrwr ei fod yn aml yn gweithio nos Wener a nos Sadwrn a'i fod yn cymryd teithiau gan gwsmeriaid oedd yn feddw yn rheolaidd.

PENDERFYNWYD – bod y drwydded cerbyd hacni/hurio preifat yn cael ei hatal am 7 diwrnod a bod angen i'r gyrrwr gwblhau

cymhwyster gyrru proffesiynol SQA o fewn tri mis

(2) Achos 2

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cwyn a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd ynghylch ymddygiad gyrrwr.

Dywedodd yr achwynydd tra oedd allan yn jogio, daeth ar draws tacsi oedd wedi parcio ar linellau melyn dwbl ac yn rhwystro'r palmant yn rhannol. Penderfynodd dynnu llun ac adrodd y mater i'r gweithredwr hurio preifat. Yna gadawodd gyrrwr y cerbyd y cerbyd a digwyddodd cyfnewid geiriau. Honnir bod y gyrrwr wedyn wedi dilyn yr achwynydd a digwyddodd ffrae fwy brwd arall. Dywedodd yr achwynydd ei bod yn pryderu am ymddygiad y gyrrwr ac am ei diogelwch.

Roedd y gyrrwr yn derbyn ei fod wedi parcio ar linellau melyn dwbl. Fodd bynnag, roedd yn casglu teithiwr â Syndrom Downs o adeilad cyfagos. Esboniodd y gyrrwr fod y daith hyn un reolaidd ac roedd bob amser yn parcio yn y lle hwnnw oherwydd bod teithwyr â Syndrom Down angen cysondeb. Dywedodd y gyrrwr fod wedi sylwi ar yr achwynydd yn tynnu lluniau o'i gerbyd. Ceisiodd egluro'r sefyllfa i'r achwynydd. Gwadodd ddilyn yr achwynydd neu fod ffrae arall wedi digwydd.

Holodd yr aelodau y ddau barti er mwyn egluro'r dilyniant o ddigwyddiadau.

PENDERFYNWYD - Na ddylid cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach.

(3) Achos 3

Ystyriodd yr Is-bwyllgor gŵyn gan deithiwr oedd yn honni bod gyrrwr wedi anwybyddu ei chyfarwyddiadau ynghylch pa gyfeiriadau i'w cymryd. Roedd y gyrrwr hefyd wedi gyrru'n beryglus, dros y terfyn cyflymder ac wedi ceisio gorgodi tâl am y daith.

Siaradodd y gyrrwr gerbron yr is-bwyllgor. Dywedodd ei fod yn gweithio ar y safle tacsis yn Lôn y Felin. Aeth cwsmer at i cerbyd a gofyn a oedd yn defnyddio'r mesurydd tacsi. Daeth dau berson i mewn i'r car. Roedd y cyntaf yn sopio yn Nhreganna a'r ail yn Rhiwbeina. Rhoddodd y gyrrwr y codau post i'w satnav. Ar ôl gollwng y teithiwr cyntaf yn Nhreganna dywedodd y gyrrwr wrth deithio ar hyd Rhodfa’r Gorllewin ei fod wedi colli'r troad yn Gabalfa. Aeth y teithiwr oedd ar ôl yn gynhyrfus, roedd hi'n ofidus ac yn gweiddi.

Gwadodd y gyrrwr ei fod yn teithio dros y terfyn cyflymder. Ymddiheurodd am golli'r troad.

Dywedodd yr achwynydd, ar ôl gollwng ei ffrind yn Nhreganna, fod y cerbyd yn teithio ar hyd Rhodfa’r Gorllewin. Rhoddodd gyfarwyddiadau i'r gyrrwr gymryd y troad oddi ar Gabalfa wrth iddynt nesáu ato. Roedd satnav y gyrrwr hefyd yn ei gyfarwyddo i gymryd yr allanfa. Roedd y gyrrwr ar y dechrau yn eistedd mewn distawrwydd ac yna'n codi ei ysgwyddau wrth iddo basio'r allanfa gan ddweud 'rhy hwyr nawr'

Ffoniodd yr achwynydd ei gŵr ar unwaith. Dywedodd ei bod yn mynd i banig ac yn poeni am ei diogelwch. Gofynnodd i'w gŵr olrhain ei ffôn gan ddefnyddio ap wedi'i osod ar y ddyfais. Cymerodd y gyrrwr yr allanfa nesaf oedd ar gael. Roedd e'n gyrru’n ansicr. Ceisiodd ail-ymuno â Rhodfa’r Gorllewin i'r cyfeiriad anghywir ac roedd angen iddo wneud stop brys. Yna teithiodd y gyrrwr dros y terfyn cyflymder a pharhau i wrthod cymryd cyfarwyddiadau. Rhoddodd yr achwynydd dystiolaeth o'r llwybr a gymerwyd gan y cerbyd a'r cyflymder yr oedd y cerbyd yn teithio wedi'i lawrlwytho o'r ap ar ei ffôn.

Wrth ymateb i gwestiynau dywedodd yr achwynydd ei bod mewn sefyllfa debyg yn ystod ei hymweliad â Llundain. Y tro hwnnw aeth y gyrrwr â hi i'r gwesty anghywir. Fodd bynnag, roedd y gyrrwr hwnnw'n hynod o galonogol, cwrtais ac ymddiheurol. Ni wnaeth y gyrrwr hwn unrhyw beth i roi sicrwydd iddi oedd ond yn cynyddu ei phryder.

Ar ddiwedd y daith gofynnodd y gyrrwr am dâl £35. Dywedodd yr achwynydd ei bod wedi mynd ar yr union un daith ar sawl achlysur a dylai'r pris fod tua £21.

Gofynnodd yr Is-bwyllgor gwestiynau. Ceisiodd yr aelodau egluro sut y byddai gyrrwr tacsi profiadol yn anwybyddu'r cyfarwyddiadau gan deithiwr a'i satNav ei hunan. Dywedodd y gyrrwr nad oedd yn gwybod pam roedd wedi methu'r allanfa a derbyn ei fod wedi gwneud camgymeriad.

PENDERFYNWYD – Atal trwydded cerbyd hacni/hurio preifat y gyrrwr am 28 diwrnod oherwydd ymddygiad annerbyniol a cheisio codi ffi ormodol ar deithiwr.

(4) Achos 4

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor benderfynu a oedd gyrrwr yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrwyr cerbydau hacni/hurio preifat. Rhoddwyd cais trwydded i yrrwr oherwydd camgymeriad gweinyddol ar 2 Mai 2023. Dylai'r cais fod wedi cael ei restru i'w ystyried gan fod y gyrrwr wedi cael trwydded wedi'i diddymu o'r blaen. Cafodd y penderfyniad i ddiddymu ei herio a'i gadarnhau wedyn yn y Llys Ynadon.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod Heddlu De Cymru wedi rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu ym mis Hydref 2018 fod y gyrrwr

wedi cael ei arestio ar amheuaeth o dreisio teithiwr benywaidd 16 oed.  Cyflwynodd y gyrrwr e-bost yn manylu ar ei fersiwn o ddigwyddiadau.  Cafodd yr holl gyhuddiadau yn erbyn y gyrrwr eu gollwng yn y pen draw ac mae'r gyrrwr yn parhau i fod yn rhydd o gollfarn.  Fodd bynnag, penderfynodd yr Is-bwyllgor Gwarchod y Cyhoedd ddiddymu'r drwydded.  Gwnaed cais ym mis Ionawr 2022 a phenderfynodd yr Is-bwyllgor Gwarchod y Cyhoedd wrthod y cais.

Holodd yr aelodau y gyrrwr am y digwyddiadau a gynhaliwyd ar y noson dan sylw.  Cododd cynrychiolydd y gyrrwr bryderon bod yr Is-bwyllgor i bob pwrpas yn ail-glywed y gŵyn wreiddiol.  Ni ofynnwyd cwestiynau i'r gyrrwr ynglŷn â'i ymddygiad ers diddymu ei drwydded yn 2018.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yr Aelodau a oedd yn bresennol yn bresennol yn 2018 a bod ganddynt hawl i ganfod beth oedd wedi digwydd a arweiniodd at ddiddymu a chadarnhau'r apêl ddilynol gan y Llys Ynadon.  Atgoffodd y Cadeirydd bob parti o'r prawf person addas a phriodol sy'n cael ei gymhwyso wrth benderfynu ar y materion hyn.

PENDERFYNWYD – Diddymu trwydded cerbyd hacni/hurio preifat y gyrrwr gan nad oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded.

(5) Achos 5

PENDERFYNWYD - Cymeradwyo'r cais am drwydded gyrru Cerbyd Hacni/Hurio Preifat.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30 pm.